

## Nodyn gan y Pennaeth - Myfyrdodau

Annwyl Rhieni

Rydym yn dod i ddiwedd tymor a blwyddyn arall. Am dymor cyffrous a llwyddiannus.

Gan mai hwn fydd fy nghylchlythyr olaf i chi fel Pennaeth, hoffwn ddiolch yn ffurfiol i'r staff am eu gwaith caled, eu cefnogaeth a'u positifrwydd tuag at y plant a'r ysgol – nid yn unig y tymor hwn- ond ers i mi gyrraedd Mornant ym mis Medi 2018. Mae gennym dîm arbennig iawn yn Mornant, ac rwyf mor ddiolchgar i bob un ohonynt.

Rydym wedi cael Arolygiad Estyn llwyddiannus a phandemig yn ogystal â nifer o heriau eraill. Rydym wedi cael llawer o anturiaethau hwyliog a chyffrous gyda'r plant. Mae dwyieithrwydd yn ein cornel fach o Gymru yn cryfhau. Mae niferoedd y disgyblion wedi blodeuo, mae'r ystafell ddosbarth allanol wedi gwella'n aruthrol, mae boeler, goleuadau a swyddfa newydd wedi'u sefydlu. Mae'r ysgol, gyda'i theuluoedd gwych cefnogol - a phlant anhygoel - wedi gwneud fy nyddiau Mornant yn rhai o'r hapusaf yn fy ngyrfa o drosti 35 mlynedd. Rwyf mor ddiolchgar i chi i gyd a bydd gennyf lawer o atgofion hyfryd i fyfyrion arnynt trwy gydol fy ymddeoliad. Mae gennym ysgol gymunedol hapus lle mae pob plentyn yn ffynnu.

Mae'r ysgol mewn dwylo diogel o dan arweinyddiaeth Mrs. Closs- Griffiths fydd yn Brifathrawiaeth dros dro, i ddechrau tan haf 2023 ac erbyn hynny bydd pennaeth parhaol wedi'i benodi'n barod i gychwyn ym mis Medi. Wrth gwrs bydd yr ysgol yn ddiogel hefyd o dan ofal ein staff rhagorol. Dymunaf Nadolig hapus a heddychlun i chi i gyd a dyfodol llawn iechyd, hapusrwydd a bendithion Duw. Diolch i chi gyd. Byddaf wrth fy modd yn clywed am lwyddiant parhaus Mornant a galw heibio i ymweld- o bryd i'w gilydd.

Cofion cynnes iawn a dymuniadau gorau

Bethan E. Jones MED



**Mornant: Heart of the Community**

**Two languages**

**Twice the choice and opportunity**

- 19.12.22** - Parti Nadolig
- 20.12.22** - Panto (Derbyn – Bl6)
- 22.12.22** - Ffilm a Disgo
- 22.12.22** - Ysgol yn cau i'r plant
- 23.12.23** - Hyfforddiant mewn swydd
- 09.01.23** - Hyfforddiant mewn Swydd
- 10.01.23** - Ysgol yn ail agor i'r plant
- 10.02.23** - 'Welsh Whisperer'
- 17.02.23** - Ysgol yn cau Hanner Tymor
- 27.02.23** - Ysgol yn agor
- 31.03.23** - Ysgol yn cau-Pasg
- 17.04.23** - Ysgol yn Agor
- 26.05.23** - Ysgol yn Cau Sulgwyn/hanner Tymor
- 05.06.23** - Ysgol yn agor
- 20.07.23** - Ysgol yn cau i'r plant

## Gwasanath Carolau

Roedd ein Cyngerdd Carolau yn llwyddiant ysgubol. Roedd yn wych gweld cymaint o blant yn cymryd rhan ac yn fod mor hyderus. Diolch i bawb yn Eglwys Llanasa am eu cefnogaeth ac i staff a disgyblion am wasanaeth bendigedig. Diolch hefyd i bawb a fynychodd. Diolch yn fawr am y cyfraniadau o £79.00 a wnaed tuag at gostau, a gwaith parhaus yr eglwys.

## Grant cymunedol Tesco er budd Mornant

Cofiwch i barhau i gasglu'r tocynnau bach glas a'i rhoi ym mlwch Mornant yn Tesco Treffynnon a Fflint. Os ydych wedi bod yn siopa yn Tesco ac wedi derbyn y tocynnau bach ond ddim yn Nhreffynnon dewch a nhw i'r ysgol ac fe awn ni a nhw a'u rhoi yn ein boc.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy eich pleidlais yn yr archfarchnad, cofiwch ledaenu ein hachos gyda'ch ffrindiau agos a theuluoedd yn y gymuned er mwyn ein helpu gyda'r pleidleisio.

## Raffl

Diolch i bawb a gyfrannodd at wobrau raffl yr ysgol ac i'r rhai a gymerodd ran. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus - gwerthfawrogi'n fawr

## Gwisg Ysgol

Mae gennym ychydig o wisg ysgol sydd wedi ei gyfrannu atom er mwyn cael eu hail gylchu. Os hoffech gael budd o'r wisg cofiwch gysylltu gyda ni drwy'r swyddfa ac fe edrychwn os yw maint eich plentyn ar gael.

## Gwelliannau Ysgolion

### Marciau ar y buarth

Mae marciau'r ar y buarth bellach wedi'u cwblhau. Mae'r plant yn mwynhau eu gêm 100 sgwâr - nadredd ac ysgolion, pwyntiau cwmpawd, llwybr ffitrwydd, cwrt pêl-rwyd a neidr yr wyddor Gymraeg. Maent eisoes wedi dechrau dyfeisio eu gemau eu hunain gan ddefnyddio'r marciau newydd.

Diolch i John Thompson am ei anrheg i'n cefnogi ac i chi am weithgareddau codi arian dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi cael eu defnyddio tuag at y gôst.

Bellach mae gan yr ystafell ddosbarth allanol waliau, ac mae gan y lloches yn ardal y Goedwig do ar oledd. Diolch i Joe Hughes am hyn.

Mae'r llwybr ar y cae babanod wedi'i ail-wynebu, mae'r cau wedi'i hail-lefelu a'i hail-hadu. Edrychwn ymlaen at y Gwanwyn pan fydd y glaswellt wedi sefydlu a gallwn unwaith eto ddefnyddio'r ardal yma.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn plannu coed ychwanegol, a gyfrannwyd gan Coed Cadw, wrth i ni barhau i ehangu ein hardal allanol.

Diolch yn fawr am yr anrhegion hael oddi wrth Llanasa Bee Festival a Cymdeithas Cadwraeth Pentref Llanasa, a ddefnyddir i ddatblygu a gwella'r ardal allanol.

## Cinio Ysgol a cinio ysgol am ddim

Mae cinio am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion Dosbarth Derbyn o Fis Medi ynghyd a'r disgyblion sydd yn gymwys ar eu cyfer yn barod. Fe fydd y cynllun yma yn cael ei ymestyn yn ystod y flwyddyn i gynnwys blynyddoedd eraill o fewn y Cyfnod Sylfaen. Fe hysbyswch chi gyda'r datblygiadau yma.

Mae rhieni dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 wedi derbyn y fwydlen gan yr ysgol drwy neges Seesaw ac ar e-bost. Os yw eich amgylchiadau yn newid ac rydych yn meddwl eich bod a'r hawl i dderbyn cinio am ddim, os gwelwch yn dda cysylltwch â'r ysgol i dderbyn canllawiau ychwanegol. Pris cinio yw £2.50 y dydd neu £12.50 yr wythnos y plentyn.

## Diwrnod Ysgol – Nodyn atgoffa

Nid oes oruchwyliaeth ar fuarth yr ysgol tan i'r ysgol ddechrau. Bydd plant yn cael eu goruchwyllo o 8.45yb pan fydd aelod o staff yno i ofalu amdanynt wrth iddynt gyrraedd.

Ni ddylai plant ddod ar y buarth nes bod aelod o staff yno i sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae Clwb Brecwast ar gael o 8yb bob dydd. Anfonir holiaduron wythnosol i'ch galluogi i gadw lle i'ch plentyn.

## Cyfathrebu gyda'r Ysgol

Rydym yn deall y pwysicrwydd o weithio yn agos gyda chi y teuluoedd er lles ein disgyblion. Cofiwch os oes unrhyw pryderon, gadewch i ni wybod drwy ffôn yr ysgol, e-bôst y swyddfa neu drwy Seesaw. Bydd staff yr ysgol yn ymateb i negeseuon ar Seesaw rhwng yr oriau canlynol 9 a 5



We have a new website - [ysgolgymraegmornant.cymru](http://ysgolgymraegmornant.cymru)

Twitter



@YsgolMornant

Email – [office@mornant.flintshire.sch.uk](mailto:office@mornant.flintshire.sch.uk)



NADOLIG LLAWEN A

BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB